# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD IAU, 26 HYDREF 2017

**YN BRESENNOL:** Dewi Wyn Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Dylan Bullard, Anwen J. Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Charles Wyn Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Dewi Owen a Catrin Wager

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Geraint Owen (Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) a Siôn Owen (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Annwen Daniels a Hefin Underwood

## 1. YMDDIHEURIADAU

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2017 fel rhai cywir.

## 5. MATERION YN CODI GAN AELODAU

Derbyniwyd cyflwyniad byr gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn nodi fod materion wedi codi gan Aelodau'r Cyngor mewn nifer o fforymau. Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor rannu eu sylwadau ar y materion oedd wedi codi yn eu rôl wrth gynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau i Aelodau.

**Lleoliadau Cyfarfodydd**
Nodwyd fod sylwadau wedi eu derbyn fod teithio i wahanol gyfarfodydd yng Nghaernarfon yn cymryd llawer o amser yr Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Annog defnyddio ystafelloedd cyfarfod y Cyngor ym Mhenrhyndeudraeth.
- Annog defnyddio technoleg er mwyn hwyluso mynychu cyfarfodydd o bell, gan alluogi Aelodau i gymryd rhan gyflawn yn y cyfarfod.
- Dylai'r Pwyllgor hwn gymryd rôl arweiniol wrth ddatblygu'r dechnoleg a threfniadau angenrheidiol.
- Nodwyd pwysigrwydd cysylltiad band eang cadarn ar draws y sir er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Fod cadeirio mewn cyfarfod sydd ag elfen o fynychu o bell yn brofiad gwahanol, ac

anos o gymharu â chyfarfod ble mae'r mynychwyr i gyd mewn un ystafell.
- Fod sefydliadau eraill eisoes yn defnyddio technoleg megis 'Skype' er mwyn dod a staff sydd mewn lleoliadau gwahanol at ei gilydd, gyda'r diwylliant sefydliadol yn newid o'r herwydd.
- Fod angen cofio am anghenion gweddarlledu cyfarfodydd wrth weithio ar fynychu o bell.

Mewn ymateb nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai megis dechrau'r daith mae'r Cyngor o ran defnyddio technoleg i hwyluso cynnal cyfarfodydd gydag elfennau o fynychu o bell.

**Cysylltu ag Adrannau, gwybodaeth a chyfathrebu gan Adrannau a Chyhoeddi cyfeiriadau Aelodau ar y we**

Nodwyd fod rhai Aelodau yn anhapus oherwydd bod datblygiadau wedi digwydd yn eu wardiau heb i'r Aelodau gael eu hysbysu. Nodwyd hefyd fod pryder wedi codi ynglŷn â'r manylion personol oedd yn cael ei gyhoeddi ar y we.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Amlygwyd pwysigrwydd cyfathrebu rhwng Adrannau ac Aelodau, nodwyd fod angen datblygu meddylfryd o gyfathrebu, yn enwedig mewn wardiau dau Aelod.
- Nodwyd fod Rhaeadr ar gael ar y Porth Aelodau, gyda darparu gwybodaeth i'r Aelodau fel rhan o'i bwrpas.
- Canmolwyd y ganolfan gyswllt am ymateb yn broffesiynol i ymholiadau Aelodau.
- Fod cyhoeddi manylion personol ar y we yn rhan o'r swydd, ac yn gymorth i'r cyhoedd i gysylltu gyda'u cynghorydd.

Mewn ymateb bu i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd annog Aelodau i rannu enghreifftiau penodol o'u profiadau o ddiffyg cyfathrebu er mwyn deall y sefyllfa go iawn a rhoi sylw pellach i'r materion a godwyd.

## 6. CYFWELIADAU DATBLYGU PERSONOL

Nodwyd fod cyfweliadau datblygu personol wedi eu cynnal gydag Aelodau er mwyn adnabod eu hanghenion datblygu. Cynhaliwyd 10 cyfarfod, gyda'r materion canlynol wedi eu hamlygu:
- Fod tipyn o waith cyfarwyddo gyda'r Cyngor a'i ddiwylliant i'r Aelodau newydd, yn enwedig trefniadau cyfansoddiadol a'r ffordd oedd y Cyngor yn gweithio.
- Fod dryswch yn aml ynglŷn â'r pwynt cyswllt cywir ar gyfer materion ble mae'r Aelodau angen cysylltu â swyddogion y Cyngor, a bod angen sicrhau fod y manylion ar y Porth Aelodau yn gywir a chyfredol.
- Fod angen parhau i gynnig hyfforddiant a chyfleon datblygu amrywiol i'r Aelodau.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-
- Fod angen bod yn ymwybodol fod gan Aelodau swyddi ac ymrwymiadau eraill wrth drefnu cyfarfodydd a sesiynau datblygu.
- Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd nad oedd yno elfen gwerthuso perfformiad yn rhan o'r cyfarfodydd datblygu personol.
- Y byddai'n fuddiol rhoi cymorth i Aelodau newydd ar waith Ward, a hynny cyn gynted â phosib wedi iddynt gael eu hethol.
- Fod problemau yn codi gyda'r dyfeisiadau electronig a ddosbarthwyd i'r Aelodau i'w cynorthwyo gyda'u gwaith.

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai sesiynau

ychwanegol i'r sesiwn a gynhaliwyd ar Fedi 10fed yn cael eu cynnal ar faterion yn ymwneud a'r Pwyllgorau. Byddai cyfarfodydd datblygu personol hefyd yn parhau i gael eu cynnig i'r holl Aelodau er mwyn eu cynorthwyo gyda'u datblygiad personol. Byddai'r Gwasanaeth Democratiaeth yn edrych ar ddulliau amgen o gynnal sesiynau datblygu i Aelodau.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod unigolion gwahanol yn dysgu trwy ddulliau gwahanol ac y byddai hynny yn cael ei ystyried wrth gynllunio cefnogaeth i Aelodau tua'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**
**1 - Cynnull is-grŵp o Aelodau'r Pwyllgor hwn er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad y Porth Aelodau ac arbrofi gyda dulliau amgen o gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant. Penodwyd y Cynghorwyr Annwen Hughes, Nia Jeffreys a Dewi Roberts i'r is-grŵp.**
**2 - Fod holiadur yn cael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau er mwyn gweld ble'r oedd problemau gyda'r offer TG, gyda'r canlyniadau i'w cywain mewn adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn.**

## 7. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - YMGYNGHORIAD

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor hwn ar y cyd â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn trafod ymgynghoriad y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Prif argymhellion y Panel oedd fod cyflog sylfaenol Aelodau yn cynyddu o £200 (1.49%) yn 2018/19, fod y trefniant o alluogi dwy haen o gyflog uwch i Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau yn dod i ben, a bod anogaeth i'r rhai sy'n gymwys i hawlio ad-daliadau am gostau gofal. Gwahoddwyd sylwadau'r Pwyllgor.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Oedd yna bosibilrwydd na fyddai Aelodau yn gorfod pleidleisio dros eu cyflogau eu hunain?
- Fyddai posib cynnwys bocs pwrpasol ar gyfer hawlio ad-daliadau gofal ar y dudalen berthnasol o fewn y system Hunanwasanaeth?

Mewn ymateb nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai diddymu'r ddwy haen o gyflogau uwch yn golygu na fyddai angen pleidlais ar lefelau cyflogau Aelodau i'r dyfodol. Penderfyniad i'r Aelodau'n unigol fyddai i dderbyn y cyflog oedd ar gael neu gyfran ohono. Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd mai dim ond un awdurdod oedd wedi manteisio ar y gallu i gyflwyno dwy haen o gyflog uwch. Anogodd yr aelodau oedd yn gymwys i wneud hynny, i hawlio'r ad-daliad costau gwarchod, er mwyn eu galluogi i gymryd rhan lawn.

**PENDERFYNWYD: derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad fel ymateb i'r ymgynghoriad.**

## 8. DATA AMRYWIAETH

Cyflwynwyd - Data Amrywiaeth yn unol â chais y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 11eg o Orffennaf 2017. Dengys y wybodaeth fod gwaith yr Is-Grŵp Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi dwyn ffrwyth i raddau, a bod lle i wella.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Awgrymwyd, er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg disgyblion ysgol, fod peilot o ddigwyddiad hyrwyddo yn cael ei gynnal gan wahodd disgyblion ysgol o Wynedd i gymryd rhan.
- Nodwyd ei fod yn bwysig tynnu'r gymuned i mewn i drafodaethau a gweithgareddau.
- Fod cyswllt rhwng y cyflog sydd ar gael a phroffil oedran Aelodau: Fod unigolion sy'n agos neu wedi ymddeol yn fwy tebygol o sefyll i fod yn gynghorwyr gan nad yw'r cyflog yn ffactor hanfodol iddynt. Ar y llaw arall nodwyd fod y cyflog sydd ar gael i Aelodau yn eithaf deniadol i fyfyrwyr, ac mai unigolion sydd mewn cyflogaeth neu yn magu teulu sydd lleiaf tebygol o sefyll mewn etholiad.
- Fod darpariaeth Gwynedd i Aelodau yn ymddangos gyda'r gorau.

Mewn ymateb, adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd bod cynrychiolwyr y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi datgan yn ddiweddar bod cyflog Aelod Etholedig wedi ei seilio ar wythnos waith o 21 awr. Cyfeirwyd hefyd at y Papur Gwyn ar Lywodraeth Leol sydd yn yr arfaeth gan y Cynulliad, ac yn benodol at y tebygolrwydd y bydd yn cynnwys cynigion i newid rheolau ar gyfer ymgeiswyr ac hefyd yr hawl i bleidleisio, fyddai o bosib yn hwb i gynyddu lefel yr amrywiaeth mewn democratiaeth.

**PENDERFYNWYD**

**1. Ail gynnull yr Is Grŵp Amrywiaeth Mewn Democratiaeth, gyda'r Cynghorwyr Annwen Daniels, Olaf Cai Larsen, Anne Lloyd Jones a Catrin Wager yn aelodau.**

**2. Trefnu digwyddiad peilot i hyrwyddo democratiaeth, gan wahodd disgyblion Ysgol y Moelwyn i gymryd rhan.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.20 y.h.

**CADEIRYDD**